# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

RHIF 152 MAWRTH 1989

# LLYGAD...



Cafodd merch ifanc o Gaerdydd brofiad arbennig yn ddiweddar, Cyfarfyddodd â un o'i harwyr-James Galway a hynny yn y Festival Hall, yn Llundain.Nid y ffliwt yn unig sy'n gyffredin i'r ddau, y maent hefyd yn rhannu problem â'u golwg.Parodd y diffyg hwn broblemau i James Galway tra yn yr ysgol, mawr oedd ei gonsyrn felly wrth iddo ddeall bod Charlotte Bowen yn ymgodymu'n ddewr â phroblem debyg.Ers rhai blynyddoedd y mae rhieni Charlotte, Gareth a Jennifer Bowen wedi bod ynholi a brwydro'n galed i gael yr addysg a'r cyfarpar addysg i alluogi Charlotte i ddatblygu yn ôl ei gallu cynhenid.Teimlant yn gryf,na ddylai nam ar olwg rwystro unrhyw blentyn rhag datblygu , yn enwedig o gofio bod cyfarpar a thechnoleg ar gael i'w helpu.Ond fel ym mhob maes "diwedd y gân yw'r geiniog, mewn ysgolion a chan Awdurdodau Addysg a Iechyd.

Er hyrwyddo eu dymuniad i sicrhau tegwch i Charlotte a phlant eraill sydd â phroblemau tebyg ,aeth Jennifer Bowen ati i ffurfio cymdeithas i ddwyn rhieni at eu gilydd i rannu problemau, a gobeithio gyda'i gilydd ddwyn perswad ar y cyrff perthnasol i roi mwy o sylw i'w problemau. Wrth wrando ar Jennifer yn siarad yn frwd meddyliais tybed faint mwy o frwydr sydd o flaen teuluoedd Cymraeg eu hiaith wrth wynebu problemau tebyg?

Y mae Charlotte yn dioddef o nam prin prin mewn plant sef Juvenille Mascular Degeneration.Y mae'r gymdeithas newydd hon bellach wedi ei ffurfio gydag aelodaeth o tua 500. Enw'r gymdeithas ye VICTA (Visually Impaired Children Take Action).Os am fanylion pellach cysyllter â Jennifer Bowen ar Caerdydd 752006. Ar ôl cyfarfod Charlotte cytunodd James Galway fod yn Llywydd Anrhydeddus i'r Gymdeithas newydd hon.Byddai Jennifer yn croesawu ymholiadau gan deuluoedd Cymraeg.

# Y GEINIOG

Apeliwyd ar ran y Dinesydd yn erbyn bygythiad i'r gefnogaeth ariannol a gawn o goffrau swyddogol. Heb y gefnogaeth a gawsom dros y blynyddoedd, anodd credu y byddai'r Dinesydd wedi llwyddo cystal. Diolchwn amdani.

Ond eisoes cwtogwyd grant arbennig y Swyddfa Gymreig tuag at gostau'r Dinesydd o £730 yn 1986/87 i £600 yn 1987/88. Nawr cafwyd ar wybod fod Cymdeithas Gelfyddydau De Ddwyrain Cymru yn ystyried cwtogi'n grant o £585 i £415.

Sail y cwtogi yma yw'r penderfyniad i gymeradwyo yr un grant i'r Dinesydd ag i bapurau bro eraill. Ond ni ddylai'r ffaith fod y papurau bro'n lluosogi fod ar draul y rhai sydd eisoes mewn bodolaeth. Nid yw'n rhesymol i roi'r un grant i bob papur bro heb ystyried eu cylchrediad. Ein dadl ni yw y dylai'r awdurdodau gydnabod cylchrediad uchel y Dinesydd - 3,000 o gopiau y rhifyn - o'i gymharu a phapurau bro eraill ac o leiaf parhau i'n cefnogi fel o'r blaen.

Ein polisi yw dosbarthu'r Dinesydd yn rhad ac am ddim, er mwyn cyrraedd pob aelwyd Gymraeg ei hiaith ynghyd â'r dysgwyr yn y Cylch. Pe'n gorfodir i godi (dywed) 20c am bob rhifyn, byddai dosbarthu i ddarllenwyr mor wasgarog a rhai Caerdydd a thai Caerdydd a'r Cylch yn anodd dros ben ac o bosibl tu hwnt i'n hadnoddau.

Nid ar arian bach y cynhyrchir Y Dinesydd - ac mae'r costau yn dechrau codi eto. Mae bwlch yn datblygu rhwng ein costau a'n derbyniadau. Daliwn i ddibynu - ac i ymhyfrydu - yng ngwaith llu o wirfoddolion sy'n ysgrifennu, adolygu, gosod a dosbarthu'r Dinesydd - a hyn oll heb godi ceiniog.

I'R UNFED DUDALEN AR DDEG.

## LLYTHYRAU

Mr P Bradley
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
11 Gordon Road
Y Rhath
Caerdydd
CF2 3AJ

Annwyl Mr Bradley

Fe ddychwelwyd contract gwasanaeth gennych ar gyfer gwasanaeth teleffon yn 11 Gordon Road, Caerdydd, rhif teleffon Caerdydd 486469 ar 17 Tachwedd 1988 ynghyd a llythyr yn gofyn am fersiwn Gymraeg neu ddwyieithog o'r cytundeb. Roeddech hefyd wedi diwygio'r manylion am yr enw a'r cyfeiriad ar y cytundeb. Sylwaf nad yw'r contract wedi ei lofnodi.

Mae eich gohebiaeth wedi ei chyfeirio ataf fi, ac mae arnaf ofn na all British Telecom barhau i ddarparu gwasanaeth teleffon i'r cyfeiriad uchod oni caiff y contract ei ddychwelyd wedi ei lenwi fel y gofynnir gan British Telecom ccc. Fe hoffwn egluro fod ein statws, yn rhinwedd Deddf Telathrebu 1984 a oedd yn galluogi preifateiddio cyfyngedig cyhoeddus. Yr oedd hynny'n ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau bod pob un o'n polisiau masnachu o fewn cwmpas Trwydded BT a'r holl statudau sy'n rheoli cynnal busnes cwmniau cyfyngedig cyhoeddus. Fel rhan o'r broses hon o gydymffurfio yr oedd yn ofynnol arnom yn genedlaethol gyflwyno masnachu contract, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob cwsmer lenwi contract ar gyfer gwasanaeth teleffon. Mae hynny'n dal yn wir. Ond amgaeaf gopi o gyfieithiad Cymraeg o'r ffurflen gontract.

Ynglyn â'r diwygiad a wnaethoch i'r manylion am y cyfeiriad, er lles eglurder a bod yn ymarferol, ein polisi yw defnyddio un ffurf yn unig ar enw lle yn ein llyfrau ffon, y llawlyfr a chofnodion perthnasol. Yr enwau a ddefnyddiwn yw'r rheiny a bennig gan yr Awdurdod Lleol priodol. Felly, gallaf dderbyn eich diwygiad yn rhannol yn unig, sef: Cymdeithas yr Iaith, Ty'r Cymry, 11 Heol Gordon, Y Rhath, Cardiff, South Glamorgan. Rwyf wedi cysylltu contract wedi ei baratoi ar y sail honno i chi ei lofnodi.

O dan y rheolau a'r telerau cytunebol sy'n rheoli darparu gwasanaeth teleffon gan British Telecommunications ccc, mae gan British Telecommunications ccc hawl i ofyn am flaendal sicrwydd er gyfer talu biliau, gan eu bod i'w talu pan ofynnir amdanynt. Cedwir y blaendal hwnnw am flwyddyn o leisf ac yna byddwn yn ystyried unrhyw gais am ad-daliad. Ond rhoir ad-daliad yn unig os bydd pob bil wedi ei dalu'n rheolaidd a heb orfod datgysylltu. Bydd unrhyw ad-daliad yn cynnwys llog ar y gyfradd briodol. Bydd angen blaendal o £400 ar gyfer rhif Caerdydd 486469.

Dylai contract wedi ei lenwi'n gywir a'r blaendal angenrheidiol o £400 gael eu dychwelyd ataf fi cyn pen 10 diwrnod ar ol dyddiad y llythyr hwn. Os na dderbynnir y naill neu'r llall, caiff y gwasanaeth teleffon ei ddatgysylltu heb rybudd pellach.

Yn gywir

ROBERT WALKER
Rheolwr Masnachol
British Telecom

Y Bnr Robert Walker
Rheolwr Masnachol
Telecom Brydeinig
25 Heol Pendwyallt
Coryton
Caerdydd CF4 7YR

1af Chwefror 1989

Annwyl Syr

CYF: CR8/CYM/218
Diolch am eich llythyr dyddiedig 27.1.89 a dderbyniais 28.1.89.

Yr wyf yn synnu'n fawr at eich ymateb i'n cais am gontract Cymraeg a'n cyfeiriad cywir.

Gan gofio ein bod wedi talu'r oll a ofynnwyd amdano pan drefnwyd rhoi'r llinell ffon i mewn, a chan gofio inni wneud hynny'n ddi-ymdroi, ni welaf unrhyw reswm am eich ymateb byr-bwyll a sarhaus, am y rhesymau canlynol.

1. Y CYFEIRIAD CYMRAEG

1.1 Y mae'r geiriau "Caerdydd" a "De Morgannwg" yn rhai swyddogol a ddefnyddir gan y cynghorau perthnasol, a Swyddfa'r Post.

1.2 Ymddengys imi mai'r cwsmer piau'r hawl i ddynodi beth a esyd o dan ei enw yn y cyfeirlyfr ffon.

1.3 Ni chodir unrhyw amryfusedd ynglyn â'r cyfeiriad byth oni ddefnyddir y côd post. Mewn gwirionedd, yr ydym yn derbyn yn rheolaidd, gohebiaeth wedi'i chyfeirio fel uchod, heb y côd, yn gwbl ddi-drafferth.

2. Y BLAENDAL

2.1 Gwelaf o'ch contract fod gennych yr hawl i godi blaendal ar fympwy, ond ni chredaf fod mympwy'n sail ddigonol dros gymryd y fath gam.

2.2 Ni sonwyd am flaendal cyn rhoi'r llinell i mewn.

2.3 Ni ofynnwyd am flaendal ar y contract gwreiddiol.

2.4 Ni ofynnir am flaendal ar y contract newydd.

2.5 Nid oes modd inni godi'r fath swm o arian.

Nid oes ond un casgliad a ellir ei dynnu o gynnwys eich llythyr, hyd y gwelaf i, sef eich bod wedi penderfynu ein cosbi am fod mor hy a gofyn am gontract Cymraeg - er bod pob tâl a ofynnwyd amdano ar y contract hwnnw WEDI EI DALU.

Gwelwn eich agwedd chi yn un sarhaus a maleisus a gofynnwn ichi drefnu cyfarfod a ni cyn gynted a bo modd er mwyn inni gael unioni ein perthynas sydd wedi dechrau mewn ffordd drychinebus o gam. Yn y cyfamser, disgwyliwn na fyddwch yn gorfodi inni dalu'r blaendal yr ydych yn ei hawlio.

Yr ydym wedi danfon copiau o'r llythyr hwn a'r holl ohebiaeth berthnasol gan gynnwys eich llythyr chi, at y canlynol:

Cadeirydd Telecom Prydeinig ccc, Llundain.
Ian Grist AS
Rhodri Morgan AS
Dafydd Wigley AS
HTV (Y Byd ar Bedwar)
Golygyddion y papurau canlynol:
Y Western Mail
Y Cymro
Y Faner
Golwg
Y Dinesydd

Y mae copi hefyd yn nwylo ein cyfreithiwr.

Gan obeithio clywed gennych yn fuan iawn

Yn gywir

P Bradley
Cadeirydd Cell Caerdydd,
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
Swyddfa Cell Caerdydd
Ty'r Cymry
11 Heol Gordon
Y Rhath
Caerdydd CF2 3AJ

---

CYMDEITHAS CANNA.

Annwyl Gyfaill,
Dyma anfon siec am £100 atoch, yn gyfraniad at gostau cyhoeddi'r Dinesydd. Fel y gwyddoch mae'n siwr, cynhelir gwersi Cymraeg i oedolion yng Nghanolfan yr Urdd er mwyn yr iaith ei hun, ond hefyd i godi arian a chefnogi 'achosion Cymreig'. Gobeithio y bydd yr arian yn gymorth i'r papur felly.
Yr eiddoch yn gywir,
Ian Lyhre.

Diolch i'r gymdeithas am eu haelioni eithriadol. Gwerthfawrogwn yn fawr eich ymdrechion.
Gol.

---

21 Ionawr 1989

Adran Gymraeg
Coleg Prifysgol Gogledd Cymru
Bangor
Gwynedd LL57 2DG

Annwyl Olygydd

YSGOLORIAETH JOHN GWILYM JONES

Un o ddymuniadau'r diweddar Dr John Gwilym Jones oedd gweld sefydlu Ysgoloriaeth ar gyfer astudio Llenyddiaeth Gymraeg o Drama yn Adran Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Bangor. Y mae'r Adran wedi derbyn sêl bendith y teulu ar sefydlu Cronfa Goffa at y bwriad hwn yn y Rhaglen Deyrnged i'r Dr John Gwilym Jones a drefnwyd gan Gwmni Drama Eryri yn Theatr Seilo, Caernarfon, 16 Tachwedd, 1988 ac yn y Cyfarfod Coffa iddo a gynhaliwyd yng Ngholeg Bangor ar 10 Rhagfyr 1988.

Y mae'r trefniadau i sefydlu'r Gronfa erbyn hyn wedi eu cwblhau. Gwahoddir cyfraniadau at y Gronfa gan bawb sy'n gwerthfawrogi'r cyfraniad enfawr a wnaeth John Gwilym Jones i Lenyddiaeth Gymraeg a'r Ddrama Gymraeg, ei gyfraniad i Gymru a'i hiaith, neu'r cyfraniad yr un mor sylweddol a wnaeth i fywydau cymaint o bobl trwy ei gyfeillgarwch a'i gymwynasgarwch.

Gellir anfon cyfraniadau at un o'r ddau ohonom ni i'r cyfeiriad a geir uchod. Dylid gwneud sieciau etc. yn daladwy i 'Ysgoloriaeth John Gwilym Jones'.

Yr eiddoch yn gywir

Bedwyr Lewis Jones
Gwyn Thomas

# Rhith y Lloer

Mae cynnal diddordeb at y diwedd mewn drama deledu awr a hanner yn gryn gamp ac fe gyflwynwyd hyn yn nrama Ewart Alexander yn ei ddrama ddiweddaraf 'RHITH Y LLOER'.

Fel rhan o ddathliad Gwyl Ddewi gan BBC Cymru ar S4C cafwyd ymdriniaeth gynnil o gyfnod arbennig o ddiddorol yn ein gorffennol agos sef o'r tridegau hwyr at y pedwar degau diweddar. Cyfnod twf Hitleriaeth, cymhellion jingoistaidd poblogaidd, protest y gwrthwynebwyr cydwybodol ar sail cenedlaetholdeb lleiafrifoedd megis yng Nghymru a Llydaw.

Yr hyn a roddai unoliaeth i'r gwahanol elfennau oedd stori garu rhwng Cymraes ifanc o Dde Cymru a gollodd ei chalon i Lydawr ifanc. Ond nid stori garu seml mohoni ychwaith. Am wn i nad oes stori garu seml ond o fewn cloriau Cyfres y Fodrwy.

Ymhlith nifer o ragoriaethau'r ddrama hon nid y lleiaf oedd y cymeriadau diddorol a greodd Ewart Alexander ac a wireddwyd gan actorion ar eu gorau. Mi fyddai'n blino braidd ar y cwyno gormodol am weld 'yr un hen wynebau' ar sgrin S4C. Pan fydd sgript gyfoethog, cyfarwyddwr talentog ac actorion o ddifri'n dod at ei gilydd mae'r wyrth ddramatig yn digwyd.

Nid cymeriadau arwynebol a gafwyd ond personau cymhleth yn celu rhyw ddirgelwch prifat a'u gwnaeth gymait mwy diddorol ac anigmantic. Saiff perfformiadau Iola Gregory, Sharon Morgan, Christine Pritchard, Ifan Huw Dafydd a Hugh Thomas yn gwbl ffres a chwbl ddisgybledig wedi'u ffrwyno at y mêr.

Cafodd rhai o'n hactorion ifainc gyfle i elwa o ran eu profiad ac i aeddfedu o ran eu crefft. Cariwyd baich y prif gymeiad Annie yn orchestol gan Catherine Tregenna ac yn ei chynorthwyo'n deilwng oedd Rhys Powys, Dewi Rhys Williams, Delyth Morgan a Dorien Thomas. Rhaid nodi hefyd berl o gameo gan Freddie Jones fel Augustus John.

Elfen o ddiddordeb neilltuol yn y ddrama hon yw'r defnydd o bedair iaith - Cymraeg, Saesneg, Ffrangeg a Llydaweg. Defnyddir isdeitlau gyda'r Ffrangeg a'r Llydaweg ond gadewir y ddwy iaith arall yn ddideitl gan eu bod yn adlewyrchu'n sefyllfa ddwyieithog arbennig ni. Pan fo'r sefyllfa ddramatic yn gofyn am hyn mae'n gweithio heb fradychu dim. Pan fydd y fersiwn Saesneg yn cael ei theledu fe fydd y Gymraeg hefyd yn cario isdeitlau.

Mae llawer iawn i'w fwynhau yn y ddrama hon ac mae mwy nag un olygfa'n cyrraedd pinacl uchel dros ben. Un yw honno adeg dathlu diwedd y rhyfel mewn parti pentref pan drawodd 'Hen Wlad fy Nhadau' yn erbyn 'God Save the King'. Dyma un o fetafforau grymus y ddrama ddisgybledig lachar hon o waith Ewart Alexander a than gyfarwyddyd medrus Gareth Rowlands. Dyma bartneriaeth addawol ar y naw. Hir y pery.

Wynne Lloyd.



Catherine Treganna fel Annie prif gymeriad yn nrama newydd Ewart Alexader 'Rhith y Lloer'.BBC Cymru ar gyfer S4C Ddydd Gwyl Dewi.1989.Cynhyrchydd a chyfarwyddwr-Gareth Rowlands.

**LLONGYFARCHIADAU**

Da iawn oedd clywed am benodiad Vaughan Salisbury fel Uwch Ddarlithydd yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Fe fydd yn gadael ei swydd yn Ysgol Llanhari ar ddiwedd Tymor y Gwanwyn - lle bu am ddeuddeng mlynedd, saith ohonynt fel Pennaeth yr Adran Addysg Grefyddol. Yn enedigol o Brestatyn, ymgartrefodd ef a'i deulu yng Nghaerdydd. Bu'n aelod gweithgar yn Eglwys y Crwys. Bydd bwlch mawr i'w lenwi yn rhengoedd Cyngor Eglwysi Cymraeg y Ddinas. Iddo ef fel Ysgrifennydd y Cyngor am y dair blynedd ddiwethaf, y mae llawer o'r clod am weithgarwch y Cyngor a choronwyd ei waith llwyddiannus yn y cyfarfodydd niferus a drefnwyd yn ystod Blwyddyn y Dathlu llynedd. Pob dymuniad da iddo.

---

Llongyfarchiadau i Rhian Watcyn Jones o Bontcanna ar ei phenodiad yn Uwch Swyddog Addysg ac Ysgrifennydd i Gyngor Darlledu Addysgol y .B.B.C. yng Nghymru. Bydd Rhian, sydd wedi bod mewn swydd dysgu yng Nghlwyd a Morgannwg Ganol yn dechrau ar ei gwaith ym Mis Ebrill.


GRADD ALLANOL

Prifysgol Cymru

Mae Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth yn cynnig cynllun i oedolion sy'n dymuno dilyn cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r Coleg. Gellir astudio'r pynciau a ganlyn: Cymraeg, Hanes Cymru, Drama, Addysg, Cerddoriaeth, Llydaweg, Astudiaethau Crefydd.

Ai hwn yw'r cyfle y buoch yn disgwyl amdano?


**Os carech dderbyn rhagor o fanylion ynglŷn â'r cynllun, a ffurflen gais, cysylltwch â:**

**A. Cynfael Lake, Swyddog y Radd Allanol, CPC Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth (Ffôn 0970-611909).**

**Gwahoddir ceisiadau gan ddarpar-fyfyrwyr erbyn dechrau mis Ebrill.**






celtic asset management cyf

Aelod o Gymdeithas Reoli Cyfryngwyr, Rheolwyr a Broceriaid Ariannol

*Rydym yn*

- **Rheoli ac yn cynghori ar gronfeydd buddsoddi**
- **Rheoli ac yn cynghori ar gronfeydd a chynlluniau pensiwn**
- **Arbenigo ar arbed treth ar etifeddiaeth**

*ac yn*

**Gwbl annibynnol a di-duedd fel y gallwn ddethol y "buddsoddiadau" mwyaf addas i'r unigolyn neu'r cwmni.**

TŶ PENHILL,
11-13 HEOL PENHILL, CAERDYDD
CF1 9UP
Ffôn (0222) 394021/4 Ffacs (0222) 383803

# Menna'n manylu

Dwi newydd fod yn gwylio noson wobrwyo'r byd pop - 'The Brits '89' ar BBC1. Dyma enghraifft o ddarlledu byw ar ei waetha! Roedd perfformiad Samantha Fox a Mick Fleetwood yn drychinebus a'r sgriptio'n waeth fyth! Er ei bod yn anodd perfformio o flaen camerâu a channoedd o bobl - yn ddilynwyr, perfformwyr a chynhyrchwyr recordiau - anoddach byth oedd hi heb gyfarwyddyd a thrafferthion technegol. Diolch am ddatganiadau eitha graenus gan grŵpiau fel Bros, Yazz a Tanita Tikharam i godi safon y noson. Cyfeiriodd Cliff Richards at ymateb y gynulleidfa i Kenneth Baker oedd yn bresennol yno - roedd rhai yn bŵian, ond ei eiriau o oedd fod yn bryd i bawb dyfu i fyny." Gobeithio bod trefnwyr a chynhyrchwyr y rhaglen wedi cael y neges. Roeddwn i a dwy o'm nithod yn gwingo'n ein seddi wrth wylio ffasiwn sioe chwerthinllyd ac amhroffesiynnol, a be wyddom ni am ddarlledu?

Yna i'r pegwn arall yr un noson, roedd rhaglen 'Y Byd ar Bedwar' gan H.T.V. yn trafod y clefyd angheuol hwnnw 'meningococl' neu 'meningitis'. Dyma drafodaeth ddeheuig a theimladwy iawn ar ran Gwenda Richards a'r tîm, ac roedd y rhaglen drwyddi'n sensitif ac ysgytwol.

Cawsom air neu ddau gan feddygon am y clefyd a hefyd air o brofiad gan rieni merch ugain oed fu farw ohono. Geiriau'r tad oedd, "Does neb yn saff, mi all ddigwydd i unrhywun."

Hyd yn hyn nid oes llwyr wellhad i bawb o'r achos gwaethaf, er fod llawer yn ffodus yn gwella er yn dioddef sgil-effeithiau ar ei ôl am flynyddoedd.

Geiriau olaf y rhiant arbennig yma oedd, "Os ydy'ch cydwybod am roi arian i'r achos teilwng hwn, rhowch o waelod eich calon, achos mae hyn wedi torri fy nghalon i." Ac mae hynny'n crynhoi'r cwbwl.

# BWTH RUTH



Wel helo pa hwyl sydd. Blwyddyn i rwan mi fûm i'n dathlu Gŵyl Ddewi gyda'r Cymry yn Thailand; eleni dwi'n teimlo mai fy niwrnod yn beirniadu yn Steddfod Ysgol - (dwy ysgol) Gyfun Gymraeg Glantâf ydi fy nathliad personol i o Wyl ein Nawdd Sant.

Fy nhâsg i oedd beirniadu adrodd - yn unigolion a grwpiau cyd-adrodd, a'r darnau dan sylw wedi eu dewis gan Bwyllgor Steddfod yr Urdd Cwm Gwendraeth - fel gwelwch chi dyma'r rownd gynta ar y daith i'r Genedlaethol yng Nghwm Gwendraeth. Rown i'n falch o gael fy atgoffa o 'Rhydcymerau' gan Gwenallt a 'Pêl droed' gan W.R. Evans ond yn falchach fyth o gael fy nghyflwyno i'r detholiad allan o 'Llyfr Hanes' T. Glynne Davies a 'Dagrau'r Iesu' gan Eirian Davies.

Roedd yn rhaid beirniadu yn yr Ysgol iau yn y Tyllgoed a'r Ysgol hŷn ar safle Glantâf - brwdfrydedd a newydd-deb y profiad o Steddfod Ysgol yn amlwg yn y Tyllgoed a mwynhad wedi ei sgeintio hefo ychydig haerllugrwydd yr hen lawiau yng Nglantâf yn gwneud y diwrnod yn gyfle i hel atgofion am yr hen Steddfodau yn Ysgol Ramadeg y Merched, Bangor - melys cofio.

Rhyfeddu wrth weld saith o offerynnau gwahanol yn cael eu chwarae yn fedrus mewn un Ensemble Jazz; pump unawdydd ar wahanol offerynnau yn cystadlu ar y Rhuban Glas Offerynnol - ac mi allech glywed pin yn syrthio cystal oedd y derbyniad a'r gwrandawiad gan weddill yr ysgol.

Hollol eofn a hŷf oedd y dramâu gwreiddiol - a meddyliwch - un ddrama yn portreadu'r 'silent movies' ond yn gwisgo dillad y 60au!! (dyna roi f'oedran i i ffwrdd.)

Mi deimlais wefr wrth fod yn rhan o'r gynulleidfa yn ystod y Cadeirio - mae'r ennillydd yn yr ysgol hŷn yn cael ei Gadeirio yng nghadair wâg Steddfod Caerdydd 1978 - dyna brofiad ynde - ac mi roedd y gadair fach acrylic sydd rwan yng nghartre Lisa Clwyd yn werth ei gweld a'i hennill.

Rown i'n pitio mai 'Moliannwn' oedd y darn a osodwyd ar gyfer cystadleuaeth Parti ag mai 'Oes Gafr eto' oedd darn y Côr - ond dyna fo, toes yna waith mawr ar droed, a'r Ysgol, rhieni a chyfeillion yn paratoi at berfformiad o'r 'Meseia' gan Handel ym mis Ebrill yn Neuadd Dewi Sant i ddathlu degawd yr Ysgol.

Llongyfarchiadau i bawb ar Steddfodau gwerth chweil yn y ddwy ysgol



RADIO'R DDRAIG GOCH.

Tra ar daith yn De Cymru, fe ymwelodd y grwp MOJO â Radio Y Ddraig Goch, gorsaf radio annibynol De-Ddwyrain Cymru. Yr achlysur oedd cyflwyno llun wedi ei fframio o glawr y record ddiweddara gan y grŵp, RHYDD RHYW DDYDD, ynhyd â'r record ei hun, i Iona Rees, enillydd cystadleuaeth a gynhaliwyd ar CADW CWMNI. Mae Iona yn byw yn 1 Colchester Avenue, Penylan ac yn ddisgybl dosbarth yn ysgol gyfun Glantaf.

# DIOLCH

Diolch o galon i Olwen Kemp am ei chyfraniad i goffrau'r Dinesydd. Calonogol yw cael ymateb a chefnogaeth.

**Hunangyflogedig? Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

Aelod o FIMBRA

30, Highfields, Llandâf, Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU
YSWIRIANT BYWYD
PENSIYNAU**

# Pwy sy'n cofio'r rhain ?

Llun gwerthfawr

Diolch i ddechrau, Madam Golygydd, am eich gwahoddiad agored caredig yn rhifyn diwethaf Y Dinesydd i anfon gair atoch.

Mae'r llun du a gwyn, maint cerdyn-post ($5\frac{1}{2}$" x $3\frac{1}{2}$") sydd gennyf yn werthfawr i mi yn naturiol ond yn ddiddorol hefyd, gallwn dybio, i ddarllenwyr Y Dinesydd. Llun ydyw o Ddosbarth Anrhydedd Cymraeg Coleg y Brifysgol, Caerdydd pan oedd y cawr ysgolhaig Griffith John Williams yn Athro yno, a T J Morgan, A O H Jarman a Gwynedd Pierce yn ddarlithwyr. Maent yn y llun. Ac eleni, mae'r llun yn union ddeugain mlwydd oed. Mehefin 1949 oedd y dyddiad pan dynnwyd y llun ac fe gafwyd prynhawn sych mae'n amlwg.

Y sawl a fu'n gyfrifol am gael gafael ar ffotograffydd, cynnull y dosbarth at ei gilydd ar gyfer y digwyddiad hanesiol a phopeth arall ar gyfer y foment fawr oedd stiwdent ifanc disglair o Benygraig, Y Rhondda. Yr oedd yn stiwdent â llygaid yn ei ben bryd hynny i synhwyro pa mor werthfawr y byddai'r llun hwnnw fel yr ai'r blynyddoedd yn eu blaen ac yn arbennig ar ben deugain mlynedd fel hyn. Dim rhyfedd i'r stiwdent blaengar hwnnw wneud ei farc ar ôl hynny yng Nghymru - neb llai na Brinley Jones, cyn-Warden Coleg Llandyfri, ei swydd olaf cyn ymddeol yn weddol ddiweddar.

Dwsin union o stiwdents sydd yn y llun. Tri ohonynt yn unig oedd o Gaerdydd ei hun - Megan Roberts (yr oedd ei thad yn frawd i Mrs Griffith John Williams), Bobi Jones (Yr Athro ar ol hynny) a'r diweddar Peter Rees. Cyd-ddigwyddiad oedd fod y tri bryd hynny'n aelodau ym Minny Street. Ac yr oeddwn innau'n aelod yno hefyd, ond mai 'Gog' oeddwn i, yn dod o Gaernarfon. Bu farw dau arall yn ystod y blynyddoedd - Glyn Tilley o Gaerffili a Tom Hughes o Flaendulais, y naill a'r llall yn fyfyrwyr disglair ac yn athrawon ar ol hynny. Bum yn cyd-letya gyda'r olaf yn 17 Monthermer Road cyn i mi symud oddi yno i 139 Richmond Road, lle, medde' nhw, yr aeth Sian Phillips, yr actores, i letya wedyn. Ond stori arall yw honno.
Mae chwech o'r grwp yn byw yng Nghaerdydd a'r cylch ar hyn o bryd - Mrs Rhiannon Hoddinnot ('Huws' bryd hynny), Islwyn Griffiths, Iwan Jones (Ysgrifennydd Eglwys Minny Street), yr Athro Gwynedd Pierce a'r Athro A O H Jarman. Oni byddai aduniad ar ben deugain mlynedd fel hyn yn ddigwyddiad diddorol a hanesiol? Byddai stori eu pererindodau gwahanol yn ystod "y deugain mlynedd hyn" yn cadw'r siarad i fynd am oriau, onid dyddiau yn wir. A phob un ohonom, pa radd bynnag a gawsom ar derfyn ein cwrs colegol, yn derbyn "Doethuriaeth" - mewn profiad!

Byddai aduniad o'r holl ddosbarth sy'n weddill - Brinley, Bobi, Megan, Beti Moses (o Ystalyfera) a Lona Protheroe (o'r Rhondda) yn fonws ychwanegol bendigedig. Cawn weld!

Dyna golled pe na byddai'r stiwdent ifanc hwnnw o Benygraig wedi trefnu cael llun onide?

Gyda llaw, alla' i yn fy myw gofio pwy ddywedodd wrthyf mai hwn oedd y Dosbarth Anrhydedd Cymraeg gorau a fu yng Ngholeg Caerdydd erioed!

Huw Ethall




GWERSI PIANO A THEORI

TIWTOR CERDDORIAETH
TGAU HYD AT LEFEL A

Ffôn Caerdydd 486609



Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816


# ORIEL

Cyhoeddodd Cyngor y Celfyddydau heddiw bod ORIEL - Siop Lyfrau ac Oriel y Cyngor - yn mynd i safle newydd yn y gwanwyn.

Ar safle yn Heol Siarl, Caerdydd, y bu ORIEL, er ei sefydlu yn 1974, ond daw'r brydles ar yr adeilad hwnnw i ben ym mis Chwefror 1989. Ers pedair blynedd ar ddeg daeth y gwasanaeth unigryw a gynigir gan ORIEL o fudd cynyddol i lenyddiaeth a chelf. Bu llwyddiant i'r ymchwil am safle newydd. Bellach cymerwyd prydles newydd am 19 mlynedd ar ran o Pearl Assurance House, yn flaenorol Banc Barclays lle una Heol y Brodyr Llwydion a'r Brodordy - yn agos i'r Ganolfan Ddinesig, y castell a'r brif ardal siopa o amgylch Heol y Frenhines. Am y tro cyntaf bydd y siop a'r oriel ar yr un llawr. Bydd y lle - sydd ychydig yn fwy na'r un blaenorol - yn cael ei addasu gyda'r bwriad o greu man arddangos gwych o'r celfyddydau yng Nghymru.

Bydd Siop Lyfrau ORIEL yn parhau i ddarparu yr un gwasanaeth, gan arbenigo mewn llyfrau o Gymru yn y Gymraeg a'r Saesneg, cyflenwad llawn o farddoniaeth a ffuglen gyfoes, a llyfrau ar y celfyddydau yn gyffredinol. Parheir i drefnu cyfarfodydd o ansawdd lenyddol yn y siop. Drwy hyn sicrheir parhad i'r enw da sydd i ORIEL fel un o'r siopau llyfrau gorau yng Nghymru, ac un sy'n darparu gwasanaeth effeithiol.

Bydd yr oriel gelf yn ORIEL yn parhau a'i pholisi o gyflwyno'r peintiadau, y cerflunwaith a'r argraffwaith gorau yng Nghymru, ac o rannau eraill o Brydain. Am y tro cyntaf, bydd hefyd yn cynnig arddangosfa barhaol o grefftwaith o safon nas gwelwyd ar y fath raddfa o'r blaen yng Nghaerdydd. Bydd rhaglen yr arddangosfeydd yn cyfuno yn llwyr y 'celfyddydau gweledol' a'r 'crefftau' a bydd yn datblygu ymhellach y gweithdai llwyddiannus i blant, a'r gweithgareddau i'r holl deulu a ddaeth ag ORIEL i'r fath amlygrwydd.

Wrth gyhoeddi'r newydd heddiw, dywedodd Mr Mathew Prichard, Cadeirydd Cyngor y Celfyddydau, "Nid siop lyfrau ac oriel gyffredin yw ORIEL, ond yr unig un o'i bath yng Nghymru. Y mae'r Cyngor yn argyhoeddedig fod ar y brifddinas angen ffenestr siop i lenyddiaeth, celf a chrefftau Cymru a bydd y safle newydd yn cysylltu â mwy o bobl nag erioed o'r blaen er budd i gynulleidfaoedd, awduron ac artistiaid oll".

*************


YMA O HYD!

TAFLEN
12, DUKE STREET ARCADE,
CAERDYDD CF1 2AZ.
◇ Llyfrau i Blesio Pawb
◇ Casetiau Cymraeg, Saesneg a Gwyddelig
◇ Cardiau at Bob Achlysur
◇ Crefftau, Darluniau a Gwaith Celf Safonol

AGORED LLUN – SADWRN 10.00-5.30
(0222) 227530

# SÊR Y DINESYDD

*Eiry Palfrey*

ARIES. Am unwaith mi fydd berw a prysurdeb y byd yn ormod i chi, a bydd angen encilio i gornel fach dawel arnoch chi. Gwnewch hynny ar bob cyfri, ond da chi peidiwch â rhoi mewn i'r hen deimladau pesimistaidd sy'n debygol o'ch poeni ar hyn o bryd. Defnyddiwch yr amser i gynllunio tuag y dyfodol disglaer sydd o'ch blaen y Gwanwyn yma.

TAURUS.
Mae rhywbeth yn eich poeni a rydych yn benderfynol i gyrraedd gwaelod y broblem.Mae'N bosib y bydd yn datblygu yn obsesiwn os na fyddwch chi'n ofalus. Gall hyn fod yn gyfnod dryslyd ac anodd i chi, felly ni fyddai'n well peidio â gwneud unrhyw benderfyniad pwysig am y tro.Cymrwch gyngor oddi wrth eich cyfeillion neu'ch cymar.

GEMINI.
Mae pethau'n argoeli'n ardderchog y mis hwn, mi ddylech wneud yn dda iawn yn ariannol yn enwedig os ydych mewn busnes ar eich pen eich hun. Gellwch ddisgwyl bod yn llygad y cyhoedd ddechrau'r mis hefyd-yn enwedig i hysbysebu. Fe ddylai'ch iechyd fod llawer gwell nag y bu ers tro bellach.

CANCER.
Dyma'rmis i fynd ar daith dramor egsotig, neu gynllunio ar ei gyfer o leiaf, felly ffwrdd a chi i'r siop deithio yn ddiymdroi! Fe allech gael amser pleserus yng nghwmni plant ar hyn o bryd, ond erbyn diwedd y mis efallai y bydd rhywfaint o anghydfod yn codi ymysg grwp o bobl rydych yn gysylltiedig â nhw.

LEO.
Fe allai'ch cymar wneud yn dda yn ariannol nawr a chithau'n elwa o'u lwc. Ond arnoch chi bydd y cyfrifoldeb i'w gynghori ymhle i'w fuddsoddi'n ddoeth. Mae na bosibilrwydd y byddwch braidd yn ormesol yn y gwaith a throi pawb yn eich herbyn ar adeg pan mae angen cydweithrediad eich cyd- weithwyr arnoch yn dost.

VIRGO.
Bydd y planed Gwener yn gwenu'n garedig ar eich priodas y misMawrth hwn, mwynhewch y rhamant! Fe ddylai hwn fod yn gyfnod creadigol iawn hefyd- efallai y clywch newyddion am fabi. Nid dyma'r amser gorau i deithio ymhell, mae yna beryg troeon trwstan, felly os medrwch osgoi taith faith am beth amser- gorau i gyd.

LIBRA.
Cymrwch ofal mawr o'ch iechyd,rydych braidd yn ddelicet ar hyn o bryd ac yn agored i bob math o afiechydon sydd o gwmpas. Mae hwn felly yn gyfnod ardderchog i ddechrau ar raglen iechyd o ddifri a gwneud yr holl bethau llesol y buoch yn bygwth eu gwneud ers tro. Y cyfan sydd angen arnoch yw penderfyniad!

SCORPIO.
Dylai hwn fod yn wanwyn llewyrchus a lwcus iawn, gan fod y Lleuad yn eich arwydd chi ddechrau'r mis,Dyma'r union adeg i ofyn am swydd, am godiad cyflog, am fenthyciad wrth y banc, neu am law gwrthrych eich serch. Mae hefyd yn gyfnod creadigol iawn i chi. Felly hei lwc wrth goncro'r byd Scorpio!

SAGITTARIUS.
Yn eich cartref mae'ch cân a'ch bryd nawr. Cyfnod ardderchog i ddechrau ar y sbring clinio melltigedig 'na. Efallai y byddwch yn ystyried symud tŷ hyd yn oed. Rydych ychydig yn fyr eich amynedd a'ch tymer ar hyn o bryd,felly cyfrwch i ddeg cyn agor eich ceg, rhag ofn brifo rhywun heb achos. Bydd diwedd y mis yn lwcus iawn i chi.

CAPRICORN.
Ond i chi gynllunio'n ofalus a thrylwyr fe allech wireddu rhai o'ch dymuniadau y Gwanwyn yma. Fe allai brawd neu chwaer fod o help mawr i chi ar hyn o bryd. Peidiwch a bod ofn pwyso arnyn nhw, cofiwch bod gwaed yn yn llawer tewach na dwr. Cymrwch ofal wrth gymryd unrhyw foddion at afiechyd, darllenwch y botel yn ofalus

AQUARIUS.
Gwyliwch eich tafod rhag cythryblu rhywun mewn awdurdod. Mi ddylech wneud yn dda yn ariannol nawr. Dylai arian sy'n ddyledus i chi o sawl cyfeiriad ddod i'ch col o fewn yr wythnosau nesa' ma. Efallai bydd aelod agos o'ch teulu yn eich siomi'n arw diwedd y mis. Ceisiwch fod yn faddeugar.

PIECES.
Bydd y blaned radlon Gwener yn symud i'ch arwydd y mis hwn gan ddod a chyfnod ardderchog o lwyddiant a harddwch i'ch byd. Os bu pethau 'N anodd am rai wythnosau fe fyd fydd yr holl rwystrau yn todd toddi fel eira yn yr haul o h hyn ymlaen. Mwynhewch y llwyddiant a defnyddiwch y cyfnod i harddu'ch hun a'ch amgylchfyd.

## Yn Eisiau

YN EISIAU AR FRYS.
AM DDAU FORE YR WYTHNOS ATHRAWES I YSGOL FEITHRIN PENTRBAEN,O HYN I FIS GORFFENAF,A PHOB BORE O FIS MEDI YMLAEN.AM FANYLION PELLACH CYSYLLTER A SUSAN ROGERS.RHIF FFON 568476.

# Y Twrch Trwyth

Mae yma grwp dawnsio gwerin yng Nghaerdydd nad yw'n gysylltiedig â'r Aelwyd.

Mae'r Twrch Trwyth yn ymarfer am 7.30 p.m. bob nos Fercher yng Nghlwb Ifor Bach ac yn bwrw ati i berffeithio eu dawnsio erbyn y Steddfod yn Llanrwst ddechrau Awst.

Ffurfiwyd y grwp rai blynyddoedd yn ôl ond mae'r fersiwn diweddaraf wedi bod yn cwrdd yng Nghlwb Ifor Bach am ryw bum mlynedd. Erys y cysylltiad cynnal a Rhydaman (cartre'r Gwrch) gydag Eirian (yr hyfforddwr) a Lona Davies a fu'n byw yno am flynyddoedd ond sydd wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd erbyn hyn.

Daw gweddill aelodau y grwp o bob cwr o Gymru, gan gynnwys brodorion o Gaerdydd, sydd wedi dysgu Cymraeg. Ac yn ôl y traddodiad dawnsio gwerin, mae'r acen ar fwynhau a poblogeiddio dawnsio gwerin er y cydnabyddir pwysigrwydd cystadleuaeth yn natblygiad safonau.

Llwyddodd y tîm ifanc mewn nifer o gystadlaethau - Gŵyl Gerdd Dant 1987 a Gŵyl Geltaidd Cilairne 1988. Hyd yn hyn nid yw'r tim wedi ennill y brif wobr yn y Brifwyl ond maent yn addo ymgais lew yn 1989!

Yn y dyfodol agos bydd y Twrch Trwyth yn ymddangos yn Ninas Powis ar nos Sadwrn, 26ain o Chwefror; Gerddi'r Dyffryn brynhawn Sul 27ain o Chwefror; Noson Gŵyl Ddewi yn Porth ar 3ydd Mawrth a Neuadd y Pentref, Sain Ffagan ar nos Sadwrn, 4ydd Mawrth.



# ARDDANGOSFA

ARDDANGOSFEYDD MIS MAWRTH 1989

**Amgueddfa Genedlaethol Cymru**

**Y Prif Adeilad, Parc Cathays**

'Gwobrau Aur Benson a Hedges'
7 - 31 Mawrth

Sefydlwyd y gwobrau yn 1983. Nod y gwobrau yw hybu safonau creadigol uchel mewn ffoto-graffiaeth, dylunio a fideo, drwy gystadleuaeth.
Y thema gosod eleni oedd 'Anturiaeth'.

**Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan**
tan 31 Mawrth

'Synagogau yng Nghymru'

Arddangosfa o ddyluniadau a pheintiadau o Synagogau Cymreig gan Olwen Hughes. Comisiwynwyd y gwaith gan Gyngor Cynrychioliadol Iddewig Caerdydd.

**Ty Turner, Heol Plymouth, Penarth**
Yn parhau

'Peintiadau Cyfoes'

Detholiad o gasgliad yr Amgueddfa yn cynnwys gweithiau gan artistiaid fel Gwen John, Cedric Morris, Kyffin Williams, Josef Herman ac eraill

(Codir tâl am fynediad i adeiladau'r Amgueddfa Genedlaethol)

**Oriel, Heol Siarl**
Yn parhau

'Eiddo Caerdydd'

Peintiadau o Neuadd y Ddinas. Arddangosfa olaf yn yr adeilad presennol.

**Neuadd Dewi Sant, Yr Ais**

Hyd 4 Mawrth

'Iwan Bala a Steve McDade'
'Peintiadau a Darluniau'

Llongyfarchiadau i Iwan ar gael arddangos mewn man sydd erbyn hyn wedi ei ymsefydlu fel man gwych, sy'n cynnig cyfle i'n hplunwyr. Peth yw groesawu yng Nghaerdydd, sydd yn dal i fod yn brin o'r fath gyfleusterau. Er na chefais gyfle y tro hwn i ymweld â'r arddangosfa, braf oedd gweld adroddiad amdano yn y Western Mail.

**Taflen, Arced Stryd y Dug**

Tan 10 Ebrill

'O'r Gogledd i'r De'

Arddangosfa gan grochenwyr ac astistiaid Gogledd Cymru

**DIOLCH**

Dymuna Seiriol ddiolch i'r holl garedigion a ffrindiau fu'n holi amdano, ac yn danfon cardiau, nodiadau a llythyrau gwerthfawr iddo tra yn cael triniaeth yn Ysbyty'r Waun.

Yr ydym hefyd yn ddiolchgar tu hwnt i'r hyn all geiriau fynegi, am y gofal a dderbyniwyd ganddo ef a Vera a'r teulu oddiwrth meddygon a staff yr ysbyty ac oddi wrth gyfeillion annwyl.

Vera a Seiriol Davies
Llandaf.



BWLCH LLANBERIS
GOUACHE 1986.

**IECHYD DA, SEIRIOL**

Fel mae llawer o'n darllenwyr yn gwybod bu ein gohebydd Celf, Seiriol Davies, dan driniaeth lawfeddygol yn ddiweddar ond bellach mae'n gwella'n ardderchog ac yn medru mwynhau coginio a chwmni Vera yn eu cartre yn Llandaf. Wrth ddymuno'n dda iddo manteisiwn ar y cyfle i sôn dipyn bach amdano a'i hanes.

Un o'r Rhos yw Seiriol, neu i fod yn fanwl gywir, un o'r Ponciau gan mai yno, yn fab i lowr y cafodd ei eni. Roedd y teulu (gan gynnwys brawd a chwaer iddo) yn byw mewn tŷ a siambr gyferbyn â'r ysgol lle bu yn ddiweddarach yn ddisgybl. (Mae clywed Seiriol yn sôn am ei gartre yn ddiddorol a dylem ei berswadio i egluro i ni sut yn union y trefnwyd y ty â bywyd y teulu). Symudodd yn 11 oed i fyw yn y Rhos ac aeth i Ysgol Uwch y Grango. Yno, yn llythrennol, cafodd olwg newydd ar fywyd - cafodd sbectol! Tan hynny, nid oedd wedi sylweddoli bod ei olwg yn wael ond yn sydyn agorwyd byd o ryfeddodau iddo ac hyd heddiw mae'n dal i ryfeddu at brydferthwch natur a gwaith llaw dyn.

At waith llaw yr aeth ar ôl dyddiau ysgol (dywed bod ei ddwylo'n ysu am grefft) gan gychwyn ar brentisiaeth gyda Chwmni o Adeiladwyr lleol. Daeth y rhyfel ar ei draws ac yntau'n treulio dwy flynedd yn yr RAF cyn cael ei ryddhau i droi'n ôl at y brics a'r mortar gan dreulio'i ddyddiau yn codi tai a ffatrioedd a'i gyda'r nosau yng Ngholeg Technegol Wrecsam yn ennill cymwysterau proffesiynol fel Adeiladydd. Bu'r rheini'n ddigon i ennill lle iddo yng Ngholeg Hyfforddi Bolton ac yno cafodd flwyddyn wrth ei fodd a chadarnhad mai dysgu ei grefft i eraill y dymunai wneud. Bu'n ddarlithydd yn Ashton-under-Lyne, Banbury ac yn Llandaf cyn cael ei benodi i Fwrdd Hyfforddi y Diwydiant Adeiladu ac yn y man, am y bedair blynedd cyn ymddeol, yn Bennaeth Adran yng Ngholeg Addysg Bellach, Merthyr.

Ffeithiau moel yw rhain i gofnodi ei yrfa a'i waith ond fel mae ei golofn misol yn profi, ei ddileit yw Celf a Chrefft yn eu holl agweddau. Mae'n sylwebydd craff a chyson ac, hefyd, yn arlunydd dawnus dros ben ei hun ac wedi arddangos lluniau mewn olew, dyfr-liw, golosg a phensil - heb anghofio un darlun dramatig o olygfa yn Sir Benfro a dynwyd ganddo, ddiffyg dim rall, gyda phensil a fwriadwyd i dynnu llinell las am amrant! Mae'n ddyn prysur yn ei ymddeoliad - prif asesydd ei bwnc i'r Cyd-bwyllgor Addysg, golygydd y cylchgrawn 'Gweled' ac wrth gwrs, taid Ifan a Gwen. Ond gobeithio y caiff gyfle i ddefnyddio ei lygaid a'i law a'i liwiau i greu llawer o luniau newydd yn ystod y blynyddoedd nesaf. N.H.W.

# RACHEL

Yn y rhifyn hon y mae teyrnged i'r diweddar Rachel Glyn Jones gan gyfaill agos i'r teulu. Dymunwn ninnau fel papur fynegi ein cydymdeimlad dwys â'r teulu i gyd - yn enwedig y rhai ohonom fu a chysylltiad a hi dros gyfnod maith, ac yn gyfoedion. Gwraig annwyl, abal, aml ei doniau oedd Rachel. Dysgodd Gymraeg, bu'n fawr ofalus ac yn wraig warchodol o'i gŵr Dyfed yn ystod ei waeledd ef rai blynyddoedd yn ôl. Pam bod rhai teuluoedd yn cael cawod drymach na'i haeddiant, dywedwch? Mae ein meddyliau efo Dyfed a'r plant.

Ar y nawfed o Chwefror yn ysbyty St. Winefride's bu farw Rachel Glyn-Jones yn 46 mlwydd oed. Roedd hi wedi ymladd yn ddewr ac yn siriol hyd y diwedd yn erbyn yr aflwydd a'i tarodd hi mor ddisymwth fis Awst y llynedd. A dyna nodweddion Rachel erioed: dewrder a sirioldeb; roeddech chi'n teimlo'n well ar ôl ei chyfarfod hi, dim ots beth oedd yr amgylchiadau; gair o gyngor call a gonest ganddi, wedyn jôc a thynnu coes, ac roedd Rachel wedi gwneud i chi deimlo nad oedd y byd yn le mor ddrwg wedi'r cyfan. Mam a gwraig driw, ffrind da i gannoedd o bobl, alto pybyr gyda Chantorion Ardwyn, dynes busnes egnïol; dwn i ddim sut yr oedd hi'n cael yr amser i wneud popeth, ond fe roedd hi, a hynny gyda gwên ar ei hwyneb bob amser. Mae ein cydymdeimlad llwyr gyda Dyfed, Miriam, Rebecca, Daniel a Matthew; nid nhw yn unig fydd yn gweld chwith garw ar ei hôl. Arwydd o hynny oedd y nifer ddôdd i fyny i lenwi Capel Tabernacl ar brynhawn yr angladd. Ddiwedd mis Mawrth bydd cyngerdd yn yr un capel i'w choffáu gyda chorau, unawdwyr ac offerynwyr; cyfle i ni i gyd ddweud diolch am y pleser gwirioneddol a gawsom o'i hadnabod.

# COFIO

I gofio'n annwyl
ymadawiad sydyn
CATHERINE ENID JONES
Fore Sul Ionawr 29 1989

Tawel ei cherdded diwall, tua'r ffin
Taer ei ffydd a diball.
Hwyr y dydd yn nhir y dall;
Gweld y wawr mewn gwlad arall.
Gwilym Rhys

Annwyl ffrindiau,
Carwn ddiolch i'r holl ffrindiau a anfonodd gardiau cydymdimlad i mi heb gyfeiriad arnynt ar ôl marw Enid. Buont o gysur mawr i mi a mawr hyderaf y derbyniwc y diolch hwn yn Y Dinesydd i chi am eich geiriau caredig mewn cyfnod anodd.
Yn ddiffuant,
W.J. Jones..

PROJECT 'LLYFRAU 3D'

Ar 1 Mawrth cyhoeddwyd wyth llyfr newydd i blant bach gan Wasg Taf, Caerdydd. Dyma'r pecyn cyntaf a gynhyrchwyd gan broject LLYFRAU 3D Cyngor Cwricwlwm Cymru. Bydd athrawon a rhieni plant bach wrth eu bodd gyda'r llyfrau hyn. Wyth stori fywiog a doniol sydd yn y pecyn, a'r lluniau yn aml yn dweud llawer mwy na'r testun. Byddant yn siwr o ddenu a difyrru plant gyda'u ffresni atyniadol. Daw'r plant yn fuan i'w darllen; a dyma'r 3D - DENU, DIFYRRU, DARLLEN, sef crynodeb twt o athroniaeth y project.

Mae angen mawr beunydd am lyfrau syml, diddorol i'r darllenwyr ifanc a bydd LLYFRAU 3D yn gam bach tuag at ateb y galw hwn. Rhoddir pwyslais ar gael hwyl a mwynhad wrth ddysgu darllen gan arwain y plant wrth ymdrin a llyfrau i garu llenyddiaeth yn gynnar yn eu bywyd. Athrawon yw'r awduron ac mae llun ohonynt yn y llyfrau ynghyd a nodyn bach personol oddi wrthynt i'r plant.

Bydd y llyfrau ar werth yn unigol yn y siopau ond gall ysgolion brynu pecynau am bris gostyngol o'r wasg.

Cydnabyddir a diolch gyfraniad sylweddol gan y Swyddfa Gymreig i gynnal y project hwn.

CÔR PHILARMONIC CAERDYDD.

Llongyfarchiadau i'r côr hwn sydd wedi hen ennil ei blwy ar ddathlu ei ddegfed penblwydd. Ffurfiwyd y côr o gnewyllyn côr yr Eisteddfod Genedlaethol, Caerdydd 1978. Llywydd cyntaf y côr oedd y cyfansoddwr Alun Hoddinott Arweinydd y côr yw Alun Guy Rhoddir dau gyngerdd gan y côr bob blwyddyn, ar ôl ymarferiadau wythnosol. Fel rhan o ddathliadau'r côr, y mae eu hail gyngerdd dathlu yn Neuadd Dewi Sant ar Ebrill y 12fed pryd perfformir y Meseia yn Gymraeg. Ar ran Y Dinesydd, ymfalchiwn yn llwyddiant y côr. Ymlaen i'r ddegawd nesaf!

## 'EVACUEES' 1939

Y mae HTV yn paratoi rhaglenni ar yr 'Evacuees' ddaeth i gefn gwlad Cymru hanner can mlynedd yn ôl.

1. A ddaethoch chi o un o'r trefi mawr ac aros yng Nghymru?
2. Ddaru chi dderbyn plant yn eich cartref? Ydych chi'n dal mewn cysylltiad â nhw?
3. Oes gennych chi unrhyw luniau, profiadau neu atgofion am y cyfnod yma?

Os felly, anfonwch air neu rhowch ganiad ffôn i -

*Miss Ann Thomas, HTV, 1-2 Glanrafon, Bangor, Gwynedd LL57 1LH*
*Rhif ffôn · Bangor (0248) 353971/353948*

HTV CYMRU WALES

O'r Ganolfan Deledu, Caerdydd, Yr Wyddgrug, Bangor a Chaerfyrddin.

# STRATA MATRIX

Ar ddydd Mercher, 1af o Fawrth, Dydd Gŵyl Dewi, ffurfiwyd cwmni hysbysebu, Cynllunio a Chysylltiadau Cyhoeddus newydd i Gymru- STRATA MATRIX, gyda swyddfeydd yng Nghaerdydd ac Aberystwyth.
Uniad yw'r cwmni newydd o ddau o gwmniau mwyaf blaengar Cymru- Cwmni cyfarthrebu Matrix, Caerdydd a Strata, y cwmni cysylltiadau cyhoeddus o Aberystwyth. Trwy gyfuno gwasanaethau arbenigol y ddau gwmni gallent fanteisio ar arbenigrwydd y ddau gwmni.
Dywedodd Wynne Melville Jones, un o gyfarwyddwyr y cwmni, "Mae'n achos llawenydd i mi wrth feddwl am y gwasanaethau cysylltiadau cyhoeddus a chynllunio y gall STRATA MATRIX ei gynnig i'n cwsmeriaid, yn sefydliadau cyhoeddus a busnesi masnachol. Bydd nerth a grym y ddau gwmni wedi'r uno at wasanaeth cynghorau sir, a holl sefydliadau cenedlaethol Cymru. Bydd gan STRATA MATRIX ran allweddol yn natblygiad economi Cymru.
Bydd y cwmni yn cyflogi 30 o bobol mewn dwy ganolfan. I ddathlu lawnsio y cwmni newydd, cyhoedda STRATA MATRIX y bydd y cwmni yn noddi Ysgoloriaeth £1,000 i fyfyrwyr sy'n astudio Cynllunio yng Nghymru. Bwriedir i'r gystadleuaeth gael ei gweinyddu ar y cyd gyda'r Cyngor Cynllunio yng Nghymru.
Cyfarwyddwyr y cwmni yw-Andrew Reid, David Wyn Meredith, Wyn Melville Jones a Brian Shields.



# RARGIAN FAWR!



Dyma lun o Brenda Rees yn ymddangos ar raglen "Rargian Fawr". Beth oedd testun y sgwrs tybed?


# *Margaret*



Fis Mawrth bydd cyfres newydd Margaret Williams yn cychwyn ar S4C, hithau yn un o ddarllenwyr Y Dinesydd.



PLANT APÊL



ROBIN A PÊL

## *Pytiau*

Da deall bod Huw Davies HTV wedi gwella ar ôl llawdriniaeth yn ddiweddar, ac yn dychwelyd i'w waith yn fuan.

Llawenydd yw croesawu Seiriol Davies gartref ar ol llawdriniaeth drom a'i fod yn prysur wella. Cofier Seiriol mai "yn ara' deg y mae mynd ymhell".

Croeso gartref i Mary Currie Jones ar ol iddi gael llawdriniaeth ar ei llygad. "Gweld ymhell" fydd Mary o hyn allan. Rydym yn falch tu hwnt i'r llawdriniaeth fod yn llwyddiannus.

Dymuna holl gyfeillion Nan Prytherch ddymuno'n dda iddi am adferiad llwyr a buan ar ôl cyfnod go faith yn Ysbyty'r Mynydd Bychan.

Daeth criw da o ieuenctid Eglwys y Crwys ynghyd ar fore Gwener, Chwefror 10fed, i gymryd rhan yn y Marathon Bwrdd Tennis Noddedig. Gorffennwyd am 10 o'r gloch y bore canlynol.

Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio tuag at addasu ystafell yn y capel ar gyfer yr ieuenctid.

Diolch yn gynnes iawn i'r ieuenctid am eu brwdfrydedd ac i Mr. Ken Innes am y trefniadau.

# Penarth a Dinas Powys

"Hen Bethe" oedd testun cyfarfod mis Chwefror yn y Gymdeithas. Cafwyd noson hynod o ddymunol dan Gadeiryddiaeth Helen Daniel. Yr arbenigwyr a wahoddwyd i draethu barn ar yr "Hen Bethe" oedd Non Henderson a Mary William, ac roedd y ddwy yn ardderchog. Rhaid cael noson debyg i hon eto- pawb wedi mwynhau a phawb yn mynd adre i chwilio a chwilota yn y cypyrddau a'r llofftydd. Pwy wyr, efallai daw cyfle i'r Antique Road Show" ymweld a ni rhyw dro!

Dymunwn yn dda i Gethin Lewis. Mae wedi mynd i'r ysbyty am lawdriniaeth ychwanegol. Pob lwc iddo gan obeithio y daw newyddion da amdano cyn bo hir.

Llongyfarchiadau i Rowland a Moyra Owen ar enedigaeth eu hwyres fach Nia Mererid merch gyntafanedig i Rhian a Lance Gibbons.

Mae'n dda ganholl aelodau'r Gymdeithas glywed bod Seiriol Davies yn gwella ar ôl derbyn triniaeth lem yn Ysbyty'r Brifysgol. Pob dymuniad da iddo am wellhad llwyr a buan.

Braf yw clywed bod Hanna Gwen, merch fach Mererid a Martin Hopwood wedi cyrraedd yn ddiogel draw yn Sutton bell! Wyres fach i Owena ac Eifion Hopwood ac i'r Dr. Eurig a Margaret Davies, Gwenfo. Pawb wedi gwirioni!

YSBYTY LLANDOCHAU.

Pob dymuniad da i Mrs Megan Davies- mam yr efeilliad Eirlys ac Elin- mae hi yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Gobeithio y bydd hi adref, ac yn ôl yn ei lle arferol yng Nghapel Bethel yn reit fuan.

Cofiwn yn annwyl iawn hefyd am Miss Miriam Morgan o Gapel Bethel Y Wesleaid yn Rhiwbeina. Mae hi wedi cael wythnosau hir o salwch yn ddiweddar ac wedi -oddef yn enbyd. Serch hyn oll mae Miss Morgan bob amser yn gwenu - byth yn cwyno ac yn batrwm o ddioddefgarwch i lawer ohonom.

Os bydd angen panedtra'n aros neu os ydych am i rhywun ymweld â Chymry sydd yn Ysbyty Llandochau cysylltwchar Penarth Penarth 701773 ac mi wnaf fy ngorau i gynnig cymorth.

Mae'n arferiad gan ychydig o Gymry'r cylch i ymweld â phobl o bell sydd yn yr ysbyty-ond-rhaid cael gwybodaeth amdanynt Weithiau mae'n bwysig cael rhywun i siarad Cymraeg, yn enwedig yn uned y plant neu ar wardiau'r henoed. Does dim byd gwaeth na chlywed ar ôl y digwyddiad i'r sawl sy'n barod i helpu, felly cysylltwch os bydd angen.

# LLYTHYR

Ionawr 23ain 1989

Annwyl Darllenwyr

CYMDEITHAS DDAWNS WERIN CYMRU
YN DATHLU EI 40fed PENBLWYDD

Eleni bydd y Gymdeithas Ddawns Werin yn dathlu ei 40fed penblwydd.

Bydd nifer o weithgareddau yn cael eu trefnu er mwyn cofnodi'r achlysur. Mae arddangosfa o hanes y deugain mlynedd ddiwethaf yn agor yn Llangollen ar benwythnos 31 Mawrth; yr un adeg a chwrs Pasg y Gymdeithas. Yna bydd yr arddangosfa'n mynd ar daith trwy Gymru.

Mae nifer cyfyngedig o blatiau dathlu, a gynlluniwyd gan David Petersen o San Clêr yn Nyfed, yn cael eu hargraffu i gofnodi'r dathliad. Y gobaith yw iddynt fod ar werth yn Llangollen ar Fawrth 31, ac yna mewn gweithgareddau cyhoeddus y Gymdeithas yn ystod y flwyddyn.

Hefyd ar y gweill mae llyfr yn cofnodi hanes y deugain mlynedd ddiwethaf. Os oes gyda chwi unrhyw hen luniau, neu hanesion am y diwrnodau cynnar, a fyddech cystal a'u hanfon i:

Miss Mair Thomas
28a Heol Llandeilo
Brynaman
Dyfed

Yn ystod y Gwanwyn a'r Haf bydd y gwyliau gwerin arferol yn cael eu trefnu led led y wlad - felly'r gobaith yw bydd pawb wedi cael blas ar y dawnsio ar gyfer y deugain mlynedd nesaf.

Yn gywir
Catrin Lewis Defis
Swyddog Cyhoeddusrwydd Cymdeithas Ddawns Werin Cymru

# APÊL

PARHAD O'R DUDALEN FLAEN.

Apeliwn yn awr yn arbennig i'r rhai sy'n gwerthfawrogi'r Dinesydd i'n cefnogi'n ariannol trwy lenwi'r archeb banc isod a'i dychwelyd i'r Trysorydd yn ddioed. I'r cyfeillion sydd eisoes yn ein cefnogi, beth am ychwanegu at eich archeb. Bydd rhestr gyflawn o'n tanysgrifwyr yn ymddangos yn rhifyn mis Ebrill. Ewch ati i berswadio cyfaill sy'n derbyn y Dinesydd i gyfrannu'n gyson tuag at ei gynnal.

I'r Eglwysi a'r Cymdeithasau sy'n cyfrannu yn hael eisoes, diolch. Mae eich cyfraniadau'n hollbwysig i barhad y Dinesydd Gyda llaw, mae croeso mawr i chi hysbysebu'ch cyfarfodydd yn y Dinesydd a chroesewir adroddiadau o'ch gweithgarwch.

Mae angen hysbysebion. Rhowch wybod inni enwau'r rhai a fyddai'n barod i gefnogi'r Dinesydd trwy hysbysebu. Diolch i'r hysbysebwyr am eu cefnogaeth sy'n tanlinellu effeithiolrwydd hysbysebu yn ein cylchgrawn.

Dymuna'r DINESYDD gydnabod gyda diolch y grant tuag at gostau cyhoeddi a dderbyniwyd o goffrau'r Swyddfa Gymreig drwy law Cymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru.

---

**ARCHEB BANC**

At y Rheolwr ................................(Enw'r Banc)

................................................(Cyfeiriad y Banc)

.........................................

Dymunaf i chi dalu i Fanc Masnachol Cymru Caerdydd 114-116 Heol y Santes Fair, Caerdydd (Rhif Cenedlaethol 30-12-50) i gyfrif PWYLLGOR RHEOLI Y DINESYDD, rhif cyfrif 46123023, ar unwaith, ac ar y dydd cyntaf o fis

.................. (enw'r mis) bob blwyddyn wedi hynny oni ddiddymir yr archeb hon gennyf mewn ysgrifen y swm o

.....................(mewn geiriau) £.......(mewn ffigurau)

(Arwyddwyd) ...........................

(Cyfeiriad) ...........................

...........................


Rhif ac enw'r Cyfrif .................

...........................

Dyddiad ..........

PWYSIG: Ar ôl cwblhau'r archeb banc uchod a fyddwch gystal a'i hanfon at: Richard Hall Williams, Trysorydd y Dinesydd, 'Argoed', 17 West Orchard Crescent, Llandaf, Caerdydd. CF5 1AR, yn hytrach na'i anfon at eich Banc. Bydd y Trysorydd yn gallu nodi, felly, fanylion pob Archeb.

# Y CROESAIR - Ap Lewsyn RHIF 88



AR DRAWS
7. Hen dre unnos a ddadfeilia. (9)
8. Yn fwy niferus. (5)
10. Mae yna seddau arbennig ar gyfer y marchogion. (8)
11. Dyma ffordd go syml o osgoi talu'r doll. (6)
12. Pren persawrus o Numeri XXIV. (4)
13. Mae'n gweithredu yn ddi-gymell. (1'1,6)
15. Ysgwyd ffust o gwmpas pen ôl y tincer yn gelfydd. (7)
17. Cerddediad o flaen y frwydr --- trafod yn ddibarch. (7)
20. Ma' @yn Seth yn prancio yn aflonydd. (8)
22. Rhoi hergwd i hyrwyddo? (4)
25. Nerth y ɖlawogydd yn ysgogi ysgrif. (6)
26. Darn o fwyd y werin ar ran o'r ddysgl, o flaen y ffwrn. (8)
27. D.S. yn mynd rownd iddo yn gyffyrddus. (5)
28. Mae hi'n drist bod i ddryswch beri'n fath anystyriaeth. (9)

I LAWR
1. Gellir ei gael trwy dd@r neu dân. (5)
2. Daw yn llythrennol i lawr o'r dewr. (6)
3. Mae i bethau-bob-dydd eu rhan yn y dyrchafu. (8)
4. Ai'r ferch ansoddeiriol a orfu? (7)
5. Dirnadaeth am hil (o waed coch)? (8)
6. Gwneir camosodiad wrth yrru Marc L. o'i le. (9)
9. Pe bai yn y presennol. (2,2)
14. Mynwes liwgar sydd ganddi. (9)
16. "A la mode!" yng Nghymru. (8)
18. Ceir ych hagr yn crwydro'r man diarffordd. (8)
19. Caryl yn ddi-geiniog, a thithau yn ddi-gynffon yn dawnsio o'i chylch --- dyna foddion dawn ysbrydoledig. (7)
21. Mae'n crio am nad oes dim ar ôl y dathlu. (4)
23. Wedi crygu. (6)
24. Anfarwol! (5)

DANFONWCH EICH DATRYSIAD AT AP LEWSYN 13 RANNOCH DRIVE GER Y LLYN, CAERDYDD, ERBYN MAWRTH YR 20FED.

DATRYSIAD RHIF 87.

Ar Draws. 1 ANHEPGOROL; 6. BANC. 10 TREFEIR. 11. SIESBIN. 12. DIRPRWYWYR. 13. CYLLID. 14. RHIGWM. 15 TRAETHODYDD. 17. GOROFALUS. 20. GOFYN. 21. YSGUB.
I lawr- 1 ALLTUD. 2 HAEARN GYR. 3. PEN TRYMAF Y BAICH. 4. OERWYNT. 5. OES YR IA. 7. AMBELL. 8. CENEDLDDYN. 9. FEL CATH I GYTHRAUL. 14. RHAGDDYFALU. 16. DIFL-ASTOD. 18. LECSIWN. 19. SAF-ASOCH. 22. GWERDD. 24 AER-WY.

---

CYSTADLEUAETH RHIF 87.

Yn anfwriadol, ni soniwyd yn Rhifyn Chwefror am gystadleuaeth. Er hynny, cyrhaeddodd chwech ymgais, cytunodd y Golygydd inni arddel cystadleuaeth. Fe dynnwyd o'r het enw C. J. Murphy, 23, Mostyn Road, Trelai, ac fe fydd tocyn i llyfr £5 ar ei ffordd iddo/iddi gyda hyn. Y pump cywir ond aflwyddiannus oedd- Gwenllian Gwyn Jones, Yr Eglwysnewydd, Marged Davies, Llandaf, B.T. Cyncoed, May Dyer, Y Mynydd Bychan, Julia lloyd, Ger y Llyn, ac un dienw a anghofiodd roi dim ar ymyl y croesair.

# Y CALENDR

Mawrth

13 Merched y Wawr
Festri Minny St. Darlith ynglŷn â Chynllun Ynys Flat Holme fel rhag-arweiniad i wibdaith Merched y Wawr i'r ynys honno yn ystod yr haf.

15 Cymdeithas Minny St., Noson Gerddorol yng nghwmni Eilonwy Jones

20 Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd
Bron Brawf. Y Dr. Huw Gravelle o Ysbyty Athrofaol Cymru yn son am y Cynllun Bron Brawf. Clwb Ifor Bach am 8 p.m.

29 Cylch Cinio Cymraeg Y Barri a'r Fro
Siaradwr: Toni Scourfield

Ebrill

3 Nos Lun Ebrill 3ydd
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd
Siaradwr- Y Parchedig Tom Evans (Swyddog Addysg Cymorth Cristnogol) yn sôn am ei brofiadau yn ymweld â'r Trydydd Byd - Anodd Credu" yngn Ngwesty'r Parc. 7 o'r gloch ar gyfer 7.30.

14 CANOLFAN YR URDD. HEOL CONWY , CAERDYDD. NOS WENER 14eg o EBRILL 1989 8 o'r gloch. NOSON YNG NGHWMNI HUW CHISWELL A JIM O'ROUKE. CYFLWYNYDD DEWI PWS MORRIS.
ENILLWYR CYMDEITHAS CEFNOGWYR CANOLFAN YR URDD.
1) Miss C. M. Davies. Hazel-lhurst Rd. Gogledd Llandaf.
2) Miss M Evans 27, Alexand-dria Road, Canton, Caerdydd
3) M. J. a M Davies,15, Rhydypennau Rd, Caerydd.

26 Cylch Cinio Cymraeg Y Barri a'r Fro
Siaradwr: Y Parchedig W. Eifion Powell

28 - Mai 1 Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan
Gŵyl Hen Galan Mai

Cymdeithas Minny St.
(dyddiad i'w benodi)
Cyngerdd gan Gôr y Ddinas
Arweinydd: Andrew O'Neill

